**Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06**

**Cylchlythyr Cyfarwyddyd**

**Crynodeb:**

Mae’r ddogfen hon yn nodi amodau’r defnydd gan awdurdodau addysg lleol o grantiau a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad a’i weinyddu, gan gynnwys y berthynas rhwng awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach ac a sefydliadau addysg uwch (y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel sefydliadau addysg bellach ac uwch).

Mae’r ddogfen hon hefyd yn nodi’r meini prawf y mae’n rhaid eu defnyddio wrth asesu a yw myfyrwyr yn gymwys i dderbyn Grant Dysgu'r Cynulliad a’r lefelau amrywiol o grant y gellir eu dyfarnu.

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer cyfrifo’r taliadau, sy’n gweithredu dan Gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/2006, yn cynnwys y lefelau o incwm y gellir ei asesu y mae’n rhaid eu defnyddio wrth gyfrifo.

Mae’r ddogfen hon hefyd yn cofnodi yn Atodiad 3 y protocol partneriaeth sy’n nodi’r trefniadau rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch ac awdurdodau addysg lleol ar gyfer gweinyddu’r cynllun.  Nid yw hwn yn rhan o’r Cynllun ei hun.

**CYNNWYS**

***1. Rhagarweiniad***

***2. Nodau ac Amcanion***

***3. Rhestr Termau***

***4. Cymhwysedd ar gyfer Dyfarndaliad***

***5. Cyfrifo'r Dyfarndaliad***

***6. Asesu Ariannol***

***7. Amodau'r Dyfarndaliad, a'i Dalu***

**8.** ***Gwerthuso***

***9. Grant Penodol***

***Atodiad 1*** – Meini Prawf Cymhwysedd Myfyrwyr

***Atodiad 2*** – Enghreifftiau o Ddilyniant

***Atodiad 3*** - Protocol partneriaeth (Rhan 1)
- Swyddogion Cyswllt Awdurdodau Addysg Lleol/Colegau (Rhan 2)

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae’r ddogfen hon yn nodi amodau’r defnydd gan awdurdodau addysg lleol o grantiau a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad a’i weinyddu, gan gynnwys y berthynas rhwng awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch (y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel sefydliadau addysg bellach ac uwch).

**1.2** Mae’r ddogfen hon hefyd yn nodi’r meini prawf y mae’n rhaid eu defnyddio wrth asesu a yw myfyrwyr yn gymwys i dderbyn Grant Dysgu'r Cynulliad a’r lefelau amrywiol o grant y gellir eu dyfarnu.

**1.3** Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer cyfrifo’r taliadau, sy’n gweithredu dan Gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/2006, yn cynnwys y lefelau o incwm y gellir ei asesu y mae’n rhaid eu defnyddio wrth gyfrifo.

**1.4** Mae’r ddogfen hon hefyd yn cofnodi yn Atodiad 3 y protocol partneriaeth sy’n nodi’r trefniadau rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch ac awdurdodau addysg lleol ar gyfer gweinyddu’r cynllun. Nid yw hwn yn rhan o’r Cynllun ei hun.

**1.5** Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi yn unol â’r canlynol:

**i**. Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002.

**ii**. Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002.

**iii**. Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Rhif 2) 2002.

**iv**. Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Rhif 2) 2004

**v.** Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2005

**NEWIDIADAU MEWN EGWYDDOR I GYNLLUN GRANT DYSGU’R CYNULLIAD**

**1.6** Does yna ddim newidiadau mewn egwyddor i Gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yn 2005/06. Mae’r asesiad incwm, fodd bynnag, yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a wnaed mewn asesu cymhwysedd ar gyfer cymorth statudol.

## 2. NODAU AC AMCANION Y CYNLLUN

**2.1** Mae cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yn amcanu darparu cymorth ariannol ychwanegol gwarantedig ar gyfer myfyrwyr cymwys mewn addysg uwch ac ôl-orfodol. Bydd hynny ar ffurf grant gyda phrofi moddion, sydd wedi ei dargedu at y myfyrwyr lleiaf cefnog. Bydd yn darparu cymorth ar ben y benthyciad i fyfyrwyr a'r cymorth gyda'r ffioedd dysgu. Bydd y grant ar gael i fyfyrwyr cymwys lle bynnag y maent yn dewis astudio, yng Nghymru neu yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

**2.2** Y nod cyffredinol yw hyrwyddo cynllun cymorth i fyfyrwyr sy'n cydnabod anghenion unigolion mewn ffordd deg a chyfiawn ac sy'n targedu'n effeithiol gymorth uniongyrchol at y rhai sydd â'r angen mwyaf.

**2.3** Mae Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yn ategu themâu allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef cynhwysiant cymdeithasol, ehangu mynediad, cynyddu cyfleoedd, cadw a dilyniant, a dysgu gydol oes.

**2.4** Dyfernir Grant Dysgu'r Cynulliad gan awdurdod addysg lleol i gynorthwyo dysgwr i dalu costau mynediad i gwrs cymwys (gweler adran 4.2) a gyflenwir gan Sefydliad Addysg Uwch, Sefydliad Addysg Bellach (gweler adran 3.4) neu Ganolfan Ddysgu Arall ac, ar yr amod eu bod yn parhau'n gymwys, byddir yn parhau i'w gynnig i'r myfyriwr drwy gydol y cwrs:

> **2.4.1** lle bo'r myfyriwr yn astudio mewn sefydliad addysg uwch neu sefydliad addysg bellach ar lefel israddedig; neu
>
> **2.4.2** lle bo'r dysgwr yn astudio cwrs sy'n gymwys ar gyfer ariannu dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 2000 a bod y dysgwr yn derbyn cymorth drwy ariannu addysg bellach y Cyngor Cenedlaethol-ELWa neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a'u bod dros 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd (ar gyfer y cwrs hwnnw) y gwneir y cais am Grant Dysgu'r Cynulliad ar ei chyfer.

**2.5** Pan fyddant yn defnyddio cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pwrpasau Grant Dysgu'r Cynulliad, rhaid i awdurdodau addysg lleol weithredu'n unol â thelerau'r polisi hwn ac unrhyw ganllawiau pellach y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd. Pan fydd awdurdod addysg lleol yn dewis ychwanegu adnoddau eraill at arian Grant Dysgu'r Cynulliad, er enghraifft, ar gyfer dibenion gweinyddol, gall ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol fel y gwêl yn dda, ond ni all hawlio ad-dalu'r adnoddau hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**2.6** Caiff perfformiad y Cynllun ei fonitro, ei adolygu a'i werthuso i sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â materion sydd wedi codi, a chyflwynir gwelliannau i'w effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd fel bo'n addas.

**2.7** Ni fwriedir Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad i effeithio ar dalu dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol eraill a gynigir yn ôl disgresiwn awdurdodau addysg lleol. Nid yw'n fwriad ychwaith y bydd myfyrwyr sy'n llwyddo i gael

cymorth, mewn cystadleuaeth ag eraill, oddi wrth ffynonellau yn ôl disgresiwn eraill (er enghraifft, dyfarndaliadau gan ymddiriedolaethau addysgol, elusennau, ysgoloriaethau ac ati) yn cael eu heithrio rhag bod yn gymwys ar gyfer cymorth Grant Dysgu'r Cynulliad (er y bydd unrhyw incwm yn cyfrif fel incwm ar gyfer pwrpasau asesu). NODYN: nid yw hyn yn cwmpasu'r myfyrwyr hynny sy'n derbyn bwrsarïau sylweddol gan y llywodraeth ac sy'n cael eu heithrio'n benodol (gweler paragraff 4.1.10).

## 3. RHESTR TERMAU

**3.1 Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd:** Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys 18 aelod-wladwriaeth: Yr Almaen, Awstria, Denmarc, Yr Eidal, Y Ffindir, Ffrainc, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Yr Iseldiroedd, Iwerddon, Liechtenstein, Lwcsembwrg, Norwy, Portiwgal, Sbaen, Sweden a'r Deyrnas Unedig. Cynhwysir hefyd ddinasyddion y Swistir. O 01

Mai 2004 mae'r 10 aelod-wladwriaeth a ganlyn wedi ymuno â'r Undeb Ewropeaidd: Cyprus, Estonia, Y Weriniaeth Slofac, Y Weriniaeth Tsiec, Gwlad Pwyl, Hwngari, Latfia, Lithiwania, Malta a Slofenia. Bydd myfyrwyr sy'n parhau sy'n dod o'r gwledydd hyn hefyd yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol fel myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â myfyrwyr newydd, o gychwyn blwyddyn academaidd 2004/05.

**3.2 Blwyddyn academaidd**: Fel yn rheoliad 2(1) y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr.

**3.3 Caniatâd eithriadol i ddod i mewn neu i aros:** Person (neu briod, plentyn neu lysblentyn y fath berson) y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(a) yn Atodiad 2 ac sydd wedi cael caniatâd i ddod mewn i'r Deyrnas Unedig, neu i aros yno. Rhaid profi hyn drwy gadarnhad ysgrifenedig neu drwy stamp ar ei basport / ei phasport.

**3.4 Canolfannau Dysgu Eraill**: cynhwysa ysgolion a cholegau a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol (yn cynnwys ysgolion arbennig a gynhelir), cyrff a noddir a darparwyr trydydd parti.

**3.5 Corff a noddir:** corff a noddir gan sefydliad addysg bellach a'i ariannu gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

**3.6 Cwrs:** Nodir y meini prawf y mae'n rhaid i gwrs eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yn adran 4.2. Mae cwrs yn cynnwys rhaglen astudio, y mae ei helfennau wedi eu hariannu gan y Cyngor Cenedlaethol – Elwa.

**3.7 Y Cyngor Cenedlaethol-ELWa**: Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.

**3.8 Cymhelliant hyfforddi:** Taliad neu gyfres o daliadau a wneir i annog unigolion i hyfforddi tuag at ddilyn proffesiwn.

**3.9 Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd:** Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2$^{ail}$ Mai 1992, fel y'i diwygiwyd gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17$^{eg}$ Mawrth 1993.

**3.10 Darparwr Trydydd Parti:** corff sy'n cyflenwi darpariaeth ar ran sefydliad addysg bellach dan drefniant trydydd parti.

**3.11 Dilyniant:** I ddangos dilyniant o flwyddyn flaenorol, rhaid i fyfyriwr un ai fod wedi cofrestru ar gyfer blwyddyn ddilynol ei gwrs/chwrs neu fod wedi cofrestru ar gwrs ar lefel astudio uwch na phan fu ddiwethaf yn gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad (gweler Atodiad 2).

**3.12 Gweithiwr Mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd**: Esbonnir ystyr Gweithiwr Mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn rheoliad 2(5) y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr.

**3.13 Incwm dros ben:** Golyga hyn incwm crynswth trethadwy, wedi ei ennill drwy waith a/neu heb ei ennill, ar ôl tynnu didyniadau a ganiateir. Gweler adran 6 am fwy o fanylion.

**3.14 Incwm yr aelwyd y gellir ei asesu**: yr incwm crynswth trethadwy llai rhai lwfansau penodol. Gweler adran 6 am fwy o fanylion.

**3.15 Oriau Addysgu / Oriau Cyswllt (cyrsiau addysg ôl-orfodol yn unig):** oriau astudio neu ddysgu 'dan gyfarwyddyd' yw'r rhain, wedi eu darparu gan sefydliad addysg bellach neu ganolfan ddysgu arall. Dylai'r oriau gynnwys yn unig y rhai pan fydd aelod o'r staff addysgu yn bresennol i roi cyfarwyddyd penodol mewn perthynas â'r cwrs neu'r rhaglen astudio. Gall gynnwys darlithoedd, seminarau ac astudio dan oruchwyliaeth mewn, er enghraifft, llyfrgelloedd a gweithdai dysgu. Mae hefyd yn cynnwys amser cyswllt gyda staff sy'n asesu cyflawniadau'r dysgwyr, er enghraifft, asesu cymhwysedd.

**3.16 Partner:** Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, partner person yw rhywun o'r rhyw arall y mae'r person yna'n byw gydag ef/hi fel ei briod/phriod, pa un ai a ydynt yn briod â'i gilydd neu beidio.

**3.17 Preswylfa Arferol:** ar gyfer dibenion y Cynllun hwn, mae preswylfa arferol yn cyfeirio ar breswylfa person mewn lle arbennig a fabwysiadwyd yn wirfoddol gan y person hwnnw ac er dibenion sefydlog fel rhan o drefn arferol ei f/bywyd ar y pryd, ond gan eithrio preswylfa sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf er dibenion derbyn addysg; dehonglir "fel arfer yn preswylio" yn unol â hynny.

**3.18 Y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr**: Y rhain yw'r Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2005 (Offeryn Statudol 2005 Rhif 52) sy'n cwmpasu Lloegr a Chymru. Dyma'r prif reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyfer darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau addysg uwch dynodedig.

**3.19 Rhiant:** O fewn y ddogfen hon, diffinnir rhiant fel y rhiant naturiol neu'r rhiant sydd wedi mabwysiadu'n gyfreithlon, y mae'r myfyriwr yn ymarferol yn ddibynnol arno/arni.

**3.20 Statws Ffoadur:** Person y dyfarnwyd y statws hwn iddynt gan yr Adran Gartref, neu briod, plentyn neu lysblentyn y fath berson. Os dyfarnwyd statws ffoadur, rhaid profi hynny drwy gyflwyno gohebiaeth oddi wrth berson yn gweithredu dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

**3.21 Statws Preswylydd Sefydlog:** Golyga hyn lle gall person fyw yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn barhaol heb i'r Adran Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar eu preswylio. Yn achos person nad yw'n Ddinesydd Prydeinig, dylid profi hyn un ai drwy i'r person gyflwyno ei basport/phasport gyda'r stamp priodol neu drwy lythyr oddi wrth berson yn gweithredu dan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol, sy'n cadarnhau ei statws.

**3.22 Ynysoedd**: golyga hyn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

## 4. Cymhwysedd ar gyfer Dyfarndaliad

**4.0.1** Rhaid i gais myfyriwr am Grant Dysgu'r Cynulliad ar gychwyn ei gwrs/chwrs gael ei wneud drwy gwblhau'r ffurflenni priodol a'u cyflwyno i'r awdurdod addysg lleol perthnasol ar gyfer yr ardal lle mae ef neu hi'n preswylio'n arferol. Rhaid i'r awdurdod addysg lleol hwnnw ("yr awdurdod addysg lleol gwreiddiol") asesu cais y myfyriwr.

**4.0.2** Rhaid i fyfyriwr wneud cais am Grant Dysgu'r Cynulliad fel arfer erbyn 31st Mai. Mater i ddisgresiwn yr awdurdod addysg lleol yw pa un ai i dderbyn cais ar ôl y dyddiad hwn neu beidio.

**4.0.3** Ni ellir ond dyfarnu Grant Dysgu'r Cynulliad os yw meini prawf y myfyriwr (gweler adran 4.1 isod) a meini prawf y cwrs (gweler adran 4.2 isod) ill dau yn cael eu bodloni.

**4.0.4** Os yw myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf ac wedi ei (d)dyfarnu'n gymwys i'w (h)asesu ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad a bod y myfyriwr yn symud i ardal awdurdod addysg lleol arall, pa un ai a yw'r awdurdod addysg lleol hwnnw yng Nghymru neu beidio, bydd yr awdurdod addysg lleol gwreiddiol yn parhau i asesu cymhwysedd y myfyriwr ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad hyd nes:

a. y bydd ef neu hi'n tynnu'n ôl o'r cwrs yn barhaol; neu

b. y bydd ef neu hi'n cwblhau'r cwrs.

Fodd bynnag, os digwydd i'r myfyriwr ymgymryd â chwrs addysg uwch ar lefel gradd gyntaf, sy'n dilyn yn uniongyrchol ar Ddiploma Cenedlaethol Uwch (yn unol ag Atodlen 3 y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2005) y dyfarnwyd Grant Dysgu'r Cynulliad eisoes ar ei gyfer, bydd yr awdurdod addysg lleol gwreiddiol yn parhau i asesu cymhwysedd ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer y radd gyntaf sy'n dilyn.

## 4.1 Cymhwysedd ar gyfer Dyfarndaliad – Meini Prawf y Myfyriwr

**4.1.1 Preswylfa**: I fod yn gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad, y maen prawf cyntaf yw bod yn rhaid i fyfyriwr fod yn preswylio'n arferol yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf ei gwrs/chwrs. Yr ail amod yw bod yn rhaid i'r myfyriwr fod wedi bod yn preswylio'n arferol, yn ystod y tair blynedd yn union o flaen y dyddiad hwnnw, un ai (a) yn y Deyrnas Unedig, os yw'r myfyriwr yn ddinesydd y Deyrnas Unedig neu (b) yr Ardal Economaidd Ewropeaidd os yw'r myfyriwr yn weithiwr mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'n briod neu'n blentyn i'r fath weithiwr. Gall myfyriwr nad yw'n ddinesydd y Deyrnas Unedig hefyd fod yn gymwys os yw ef neu hi'n bodloni'r amod cyntaf ac yn gallu dangos fod ef neu hi (neu ei briod/phriod neu riant) wedi derbyn dyfarniad un ai statws ffoadur neu ganiatâd eithriadol i aros, neu statws preswylydd sefydlog o fewn y Deyrnas Unedig. [Nodir y manylion cyflawn yn Atodiad 1]

**4.1.2 Astudio blaenorol.** Ni fydd ef neu hi yn gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad os ydy ef neu hi wedi derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad am fynychu cwrs ar yr un lefel neu'n uwch. I barhau'n gymwys, rhaid i fyfyriwr ddangos camu ymlaen i lefel uwch o ddysgu, hynny yw, dangos dilyniant (gweler Atodiad 2, a pharagraff 4.1.8 isod ar gyfer eithriadau).

**4.1.3 Bod yn18 oed neu'n hŷn ar gyfer cwrs addysg ôl-orfodol:** Rhaid i fyfyriwr sy'n ymgeisio am gymorth Grant Dysgu'r Cynulliad fod yn 18 oed neu'n hŷn ar gychwyn y flwyddyn academaidd ar gyfer y cwrs. NODER - nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs addysg uwch.

**4.1.4 Mynychu cwrs Dynodedig:** Gweler paragraff 4.2 isod.

**4.1.5 Mynychu mwy nag un cwrs:** Pan fo myfyriwr yn ymgymryd â dau (neu ragor) o gyrsiau ar yr un pryd, gall ef neu hi ond bod yn gymwys am un Grant Dysgu'r Cynulliad mewn unrhyw un flwyddyn (gweler 4.2 isod)

**4.1.6 Dogfennau Gofynnol:** Rhaid i fyfyrwyr ddarparu pa bynnag wybodaeth a geisir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**4.1.7 Trosglwyddo Cymhwysedd:** Gall myfyriwr drosglwyddo ei gymhwysedd/chymhwysedd ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad o un cwrs dynodedig ("y cwrs gwreiddiol") i un arall ("y cwrs newydd"), un ai yn yr un sefydliad neu un arall.

**4.1.7.1** Pan fo'r cwrs newydd ar yr un lefel, neu ar lefel uwch na'r cwrs gwreiddiol, bydd y myfyriwr yn parhau'n gymwys am Grant Dysgu'r Cynulliad am weddill y flwyddyn academaidd.

**4.1.7.2** Pan fo'r cwrs newydd ar lefel is na'r cwrs gwreiddiol, gyda'r newid cwrs yn digwydd o fewn yr ugain wythnos gyntaf o gychwyn y cwrs gwreiddiol, bydd y myfyriwr yn parhau'n gymwys am Grant Dysgu'r Cynulliad am weddill y flwyddyn academaidd, oni bai ei fod/bod wedi derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad o'r blaen am fynychu cwrs astudio ar y lefel is honno.

**4.1.7.3** Pan fo'r cwrs newydd ar lefel is na'r cwrs gwreiddiol, gyda'r newid cwrs yn digwydd **ar ôl ugain wythnos** o gychwyn y cwrs gwreiddiol, ni fydd y myfyriwr yn gymwys eto am Grant Dysgu'r Cynulliad hyd y pryd y bydd yn gallu dangos dilyniant o flwyddyn gyntaf ei gwrs/chwrs gwreiddiol.

**4.1.8 Ailadrodd Astudio**

**4.1.8.1** Gellir ystyried cymhwysedd i dderbyn cymorth Grant Dysgu'r Cynulliad am gyfnod o ailadrodd astudio ar sail amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â methiant myfyriwr i gwblhau'r flwyddyn academaidd, a disgresiwn yr awdurdod addysg lleol. Ym mhob achos, bydd angen i'r myfyriwr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol oddi wrth yr holl ffynonellau priodol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ar gais yr awdurdod addysg lleol. Derbynnir y gall rhai unigolion (er enghraifft, pobl gydag anableddau neu anawsterau dysgu) fod wedi gwneud cynnydd sylweddol ond heb sicrhau dilyniant mewn termau penodol academaidd (er enghraifft, i 'lefel 2'). Mewn amgylchiadau felly, bydd awdurdodau addysg lleol, mewn ymgynghoriad â sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn arfer disgresiwn wrth benderfynu yn ôl pob achos unigol a oes yna ddilyniant.

**4.1.8.2** Heblaw'r myfyrwyr hynny a all dderbyn dyfarndaliad cyflawn o ganlyniad i amgylchiadau lliniarol, bydd myfyrwyr sydd wedi gadael cwrs (nid wedi trosglwyddo) ac sydd am ailadrodd yn y blynyddoedd dilynol (ac sydd fel arall yn gymwys) â hawl i dderbyn dyfarndaliad rhannol yn gymesur â'r ganran o'r dyfarndaliad cyfan na ddefnyddiwyd

yn y flwyddyn wreiddiol, hynny yw, y ganran a oedd ar ôl, y byddent wedi ei derbyn pe na baent wedi gadael y cwrs. Er enghraifft, bydd myfyriwr y dyfarnwyd iddo/iddi £1,500 cyflawn yn 2003/04 ac a adawodd yn ystod yr ail dymor (gyda hawl wedi ail-gyfrifo i £797) wedi derbyn 53% o'r dyfarndaliad am flwyddyn gyfan. Os na fydd yna unrhyw newid yn ei (h)amgylchiadau, bydd y myfyriwr yn gymwys i dderbyn y 47% sydd ar ôl o ba bynnag raddfa fydd yn gweithredu mewn blwyddyn ddilynol. Noder, fodd bynnag, na wneir unrhyw daliad nes y bydd y myfyriwr wedi cyrraedd y pwynt yn y flwyddyn academaidd sy'n cyfateb i'r pwynt y gadawodd ef neu hi y cwrs.

**4.1.9 Anaddas i dderbyn cymorth:** Gall yr awdurdod addysg lleol farnu fod ymgeiswyr yn anaddas i dderbyn cymorth, er enghraifft, mewn amgylchiadau pan fo myfyriwr wedi cyflwyno cais twyllodrus ar gyfer unrhyw fath o gyllid i fyfyrwyr yn flaenorol.

**4.1.10 Bwrsarïau a ffynonellau cymorth ariannol eraill:**

**4.1.10.1** Os yw myfyriwr yn dysgu ar raglen y Fargen Newydd, yn derbyn bwrsari GIG, bwrsari Coleg Harlech (neu fwrsari cyfatebol ar gyfer cwrs hir a ddarperir gan y Pwyllgor Colegau Preswyl neu Gyngor Ariannu Addysg Bellach yr Alban), neu'n cael cymorth ariannol ar wahân drwy'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa ar raglen Dysgu Seiliedig ar Waith (er enghraifft hyfforddeion cenedlaethol a rhai prentisiaethau modern) neu'n derbyn cymorth sylweddol arall a ddarperir yn ganolog (er enghraifft i astudio tuag at Ddiploma Addysg Uwch mewn Ymarfer Adran Lawdriniaethau) bydd ef neu hi'n anghymwys ar gyfer dyfarndaliad dan Grant Dysgu'r Cynulliad. NODER: nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a gall fod yna gynlluniau eraill lle mae myfyrwyr yn derbyn "cymorth sylweddol" – nid yw hyn yn cynnwys enillion o gyflogaeth lle bo hynny'n rhan annatod o'r cwrs (hynny yw, lleoliad). Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n derbyn 'cymhelliant hyfforddi' (gweler paragraff 4.1.10.2 isod) nad yw'n cyfrif fel "cymorth sylweddol" a'r rhai sy'n derbyn cymorth cyffredinol gyda chostau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, sy'n cael eu hystyried felly. OS YDYNT YN ANSICR, DYLAI AWDURDODAU ADDYSG LLEOL GEISIO CYNGOR.

Eithriad i'r uchod yw y bydd myfyrwyr a dderbyniodd gymorth yn 2002/03 a 2003/04 i ddilyn rhaglen o Ddysgu Seiliedig ar Waith neu Ddiploma mewn Ymarfer Adran Lawdriniaethau ac sy'n parhau i fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eraill yn parhau'n gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad hyd nes y bydd y cwrs wedi ei gwblhau.

**4.1.10.2** Yn achos myfyriwr sy'n derbyn taliad cymhelliant (er enghraifft, Grant Lleoliad Israddedigion Uwchradd, Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg, neu'r Bwrsari Gwaith Cymdeithasol), dylid anwybyddu'r er dibenion cymhwysedd ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad oherwydd bod y cynlluniau hyn wedi eu bwriadu fel cymhelliant yn hytrach nag fel cymorth i fyfyrwyr.

## 4.2 Cymhwysedd am ddyfarndaliad yn ôl y Cwrs

**4.2.1** Bydd cwrs yn gymwys cyn belled nad yw'n denu arian cymorth i fyfyrwyr fel y nodir ym mharagraff 4.1.10 a chyn belled bod y canlynol yn wir:

- **Ar gyfer Addysg Uwch**

  Mae'n gwrs ar lefel israddedig a ddynodir yn Atodlen 3 y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr, a ddarperir gan sefydliad y cyfeirir ato yn rheoliad 5(1)(d) (fel y'i heglurir yn rheoliad 3(a) - (c) o'r rheoliadau hynny), sy'n gofyn mynychu sefydliad yn rheolaidd, un ai'n llawnamser neu ar sail ran-amser (yn cynnwys Tystysgrif Genedlaethol Uwch) ac sy'n cynnwys o leiaf 30 credyd ym mhob blwyddyn academaidd.

**Noder: Mae myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau e-ddysgu/mentro mewn busnes yn cychwyn ym mis Medi 2004 yn gymwys, yn ddibynnol wrth gwrs ar gymhwysedd personol, i wneud cais am gymorth Grant Dysgu'r Cynulliad. Fodd bynnag, hyd yn oed os ystyrir y cwrs yn un llawnamser gan y sefydliad addysg uwch, ni all ond bod yn gymwys am gymorth rhan-amser dan Grant Dysgu'r Cynulliad.**

- **Ar gyfer Addysg Ôl-orfodol**

  Mae'n gwrs (neu'n elfennau sy'n ffurfio rhaglen astudio) sy'n derbyn cymorth drwy'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa (neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau neu gorff cyfatebol) sy'n gofyn mynychu sefydliad addysg uwch neu ganolfan ddysgu arall (fel y'i diffinnir ym mharagraff 3.4) ac sy'n cynnwys o leiaf 275 o oriau addysgu ym mhob blwyddyn academaidd (yn cynnwys cyrsiau sylfaen annibynnol).

**4.2.2** Lle bo cwrs addysg uwch llawnamser yn cynnwys cyfnodau angenrheidiol o brofiad gwaith neu astudio (yn ôl y diffiniad yn nehongliad y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr) sy'n digwydd mewn lleoliad/sefydliad arall (hyd yn oed os yw'r lleoliad/sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig), bydd y cwrs hwnnw'n gymwys i dderbyn cymorth cyn belled â'i fod fel arall yn bodloni gofynion paragraff 4.2.1. (Noder: er dibenion y ddogfen hon, bydd 18 wythnos yn gyfartal â 90 o gredydau)

**4.2.3** Pan fydd myfyriwr yn cwblhau ei gwrs/chwrs yn llwyddiannus oddi mewn i'r dyddiadau tymor a ddynodir, a hynny wedi ei gadarnhau gan y sefydliad addysg bellach neu uwch neu ganolfan ddysgu arall, ni chaiff y swm blynyddol o Grant Dysgu'r Cynulliad a ddyfernir i'r myfyriwr ei ail-gyfrifo yn unol â'u presenoldeb gwirioneddol ond yn hytrach caiff ei dalu'n gyflawn.

## 5. Cyfrifo'r Dyfarndaliad

**5.1 Myfyrwyr addysg uwch a gychwynnodd ym mlwyddyn academaidd 2003/04 neu ynghynt a myfyrwyr addysg bellach:** Pan fydd myfyriwr yn parhau ar gwrs cymwys ac yn dod o fewn i un o'r categorïau uchod, yna fe ddylid cyfrifo'r dyfarndaliad ar y sail ganlynol:

| Addysg Bellach | Addysg Uwch | Incwm yr aelwyd y gellir ei asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr oriau cyswllt ym mlwyddyn academaidd 2004/05 | | Rhwng £0 - £5,350 | Rhwng £5,351 - £10,700 | Rhwng £10,701 £16,065 | £16,066 ac uwch |
| 275 – 499 | Rhan-amser | £750 | £450 | £300 | Dim |
| 500 neu fwy | Llawnamser | £1,500 | £750 | £450 | Dim |

**5.2 Myfyrwyr addysg uwch a gychwynnodd yn 2004/05 neu 2005/06:** Pan fydd myfyriwr yn gymwys ar gyfer Grant Addysg Uwch, mae'r egwyddor yn sefyll na ddylai unrhyw fyfyriwr fod ar ei golled/cholled na phe byddai wedi cael eu dyfarnu'n gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad. Pan fydd myfyriwr **addysg uwch** yn gymwys am y Grant Addysg Uwch cyflawn o £1,000, ond y byddai wedi bod yn gymwys am ddyfarndaliad Grant Dysgu'r Cynulliad cyflawn (£1,500), yna gellir cyfrifo'r dyfarndaliad fel a ganlyn:

| Band Incwm | Grant Dysgu'r Cynulliad | Grant Addysg Uwch |
|---|---|---|
| 0 – 5,350 | £500 | £1,000 |
| 5,351 i £21,565 | Dim | £50 - £1,000 |

**5.3** Pan na fydd myfyriwr yn gymwys ar gyfer y Grant Addysg Uwch newydd oherwydd rheolau ynghylch astudio blaenorol, ac **nad** yw'r myfyriwr hwnnw/honno wedi derbyn dyfarndaliad Grant Dysgu'r Cynulliad o'r blaen ar gyfer cwrs neu raglen astudio ar yr un lefel neu'n uwch, yna gellir cyfrifo'r dyfarndaliad Grant Dysgu'r Cynulliad fel yn 5.1.

**NODER: Ni effeithir ar y trefniadau ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan-amser gan gyflwyno'r pecyn cymorth rhan-amser statudol a'r newidiadau diweddarach i hynny.**

## 6. Asesu Ariannol ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2005/06

### 6.1 Gofynion Asesu Rhieni

**Myfyrwyr a gychwynnodd eu cwrs neu eu rhaglen astudio ym mlwyddyn academaidd 2003/04 neu ynghynt**

**6.1.1** Bydd lefel Grant Dysgu'r Cynulliad y mae gan fyfyriwr hawl iddi yn dibynnu ar incwm dros ben aelwyd ei r(h)ieni, heblaw lle bo paragraffau 6.2 a 6.3 yn berthnasol. Cyfrifir incwm dros ben aelwyd fel incwm crynswth (hynny yw, trethadwy) llai didyniadau a ganiateir.

**Noder: mae ceisiadau adnewyddu'n dibynnu ar hunanasesiad.**

**6.1.2** Os yw rhieni myfyriwr yn cydfyw, cyfrifir incwm dros ben y rhieni gan gymryd i ystyriaeth incwm y ddau riant. Os yw rhieni myfyriwr yn byw ar wahân, cyfrifir incwm dros ben y rhieni gan gymryd i ystyriaeth yn unig incwm dros ben y rhiant (i) oedd yn fwyaf diweddar, neu sydd ar y pryd, yn gymwys i dderbyn budd-dal plant ar ran y myfyriwr hwnnw/honno, neu (ii) (os na ellir profi cymhwysedd i dderbyn budd-dal plant) y rhiant y bu'r myfyriwr yn byw gydag ef neu hi yn fwyaf diweddar.

**6.1.3** Yn amodol ar is-baragraff 6.1.2 uchod, cyfrifir incwm crynswth yn unol â Pharagraff 3 yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr. Cyfrifir didyniadau a ganiateir yn unol â pharagraff 5, is-baragraffau (1)(a)(b)(c), (2) (a) (b), yr Atodlen honno.

**6.1.4** Mae paragraff 1 yr Atodlen honno, sy'n cynnwys diffiniadau o'r "flwyddyn ariannol", "partner" ac "incwm dros ben", yn ogystal â gwybodaeth arall sy'n berthnasol i ddehongliad paragraffau 3 a 5 o'r Atodlen honno, yn gymwys ar gyfer yr is-baragraffau uchod.

**Myfyrwyr a gychwynnodd eu cwrs neu eu rhaglen astudio ym mlwyddyn academaidd 2004/05 neu 2005/06**

**6.1.5** Bydd lefel y dyfarndaliad y bydd myfyriwr sy'n cychwyn blwyddyn gyntaf ei gwrs/chwrs ym mlwyddyn academaidd 2004/05 neu 2005/06 yn gymwys ar ei gyfer yn dibynnu ar ei (h)incwm y gellir ei asesu a/neu incwm y gellir ei asesu ei r(h)ieni, y partner sy'n cyd-fyw â'r rhiant naturiol, neu ei bartner/phartner sifil neu briod, neu ŵr, gwraig, partner, neu bartner sifil y myfyriwr, yn dibynnu ar ei statws, hynny yw, pa un ai yw'n annibynnol neu'n ddibynnol.

### 6.2 Gofynion Asesu'r Partner

Lle bo'r eithriadau a restrir yn Mharagraff 2 Atodlen 5 y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr yn gymwys ac mae'r myfyriwr yn byw gyda phartner,

bydd lefel Grant Dysgu'r Cynulliad yn dibynnu ar incwm dros ben y partner, (a benderfynir yn unol â'r dull cyfrifo incwm dros ben priod a ddefnyddir ym Mharagraff 6 yr Atodlen honno).

## 6.3 Gofynion Asesu'r Myfyriwr

**6.3.1** Pan nad yw incwm dros ben y rhiant, neu'r partner sy'n cyd-fyw â'r rhiant, neu ei bartner/phartner sifil neu briod, neu incwm dros ben y partner neu bartner sifil (pa un bynnag sy'n berthnasol) yn uwch na £16,065, asesir hefyd incwm y myfyriwr er mwyn penderfynu pa lefel o Grant Dysgu'r Cynulliad y mae'r myfyriwr â hawl iddi.

**6.3.2** Defnyddir yr uchaf o'r ddau gyfanswm incwm er dibenion yr asesiad.

**6.3.3** Pan fydd incwm myfyriwr i'w gyfrifo, gwneir y cyfrifo yn unol â Pharagraff 4 Atodlen 5 y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr, ond pan fydd cwrs y myfyriwr yn llawnamser, fe anwybyddir ar gyfer y cyfrifo unrhyw ran o incwm y myfyriwr sy'n incwm o enillion.

**6.3.4** Golyga "Llawnamser" yn is-baragraff 6.3.3:

(a) yn achos addysg uwch, cwrs a ddynodir yn benodol fel un llawn amser gan y sefydliad dan sylw (120+ o gredydau pob blwyddyn academaidd), ac

(b) yn achos addysg Ôl-orfodol, cwrs sy'n cynnwys 500 neu ragor o oriau addysgu yn ystod y flwyddyn academaidd.

## 6.4 Diwygio Gofynion Asesu

Mae'r paragraff hwn yn berthnasol pan fo'r awdurdod addysg lleol yn fodlon bod incwm dros ben y rhiant, y partner sy'n cyd-fyw â'r rhiant naturiol, neu ei bartner/phartner sifil neu briod, neu ŵr, gwraig, partner neu bartner sifil y myfyriwr, neu incwm y myfyriwr (pa un bynnag sy'n berthnasol) yn debygol o ostwng yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, oni bai fod y gostyngiad a ddisgwylir yn digwydd oherwydd amrywiadau tymor byr megis y maint o weithio goramser sydd ar gael.

**6.4.1** Lle bu'r myfyriwr gynt y tu hwnt i feini prawf ariannol y cynllun, ond y byddai'r gostyngiad disgwyliedig mewn incwm yn dod â'r myfyriwr oddi mewn i'r meini prawf hynny, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ailasesu lefel grant y myfyriwr ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, drwy ailgyfrifo'r incwm hwnnw ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

**6.4.2** Yn yr un modd, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ailasesu hawl y myfyriwr lle byddai'r gostyngiad disgwyliedig mewn incwm yn golygu y byddai'r myfyriwr yn gymwys ar gyfer band uwch o ddyfarndaliad.

## 7. Amodau'r Dyfarndaliad, a'i Thalu

**7.1 Tystiolaeth ddogfennol:** Lle bo hynny'n briodol, gall fod yn ofynnol i fyfyrwyr, rhieni, y partner sy'n cyd-fyw â'r rhiant naturiol, neu ei bartner/phartner sifil neu briod, neu i ŵr, gwraig, partner neu bartner sifil gyflwyno tystiolaeth ddogfennol berthnasol pryd bynnag y gofynnir iddynt wneud hynny, a dylai awdurdodau addysg lleol gofnodi fod y dystiolaeth honno wedi ei chyflwyno. Os na ddarperir y wybodaeth hon, neu pan fo'r awdurdod addysg lleol yn credu fod gwybodaeth yn cael ei hatal neu wybodaeth ffug a all fod yn berthnasol i gais y myfyriwr yn cael ei chyflwyno, gall awdurdodau addysg lleol atal neu derfynu cymorth a gallant gymryd camau pellach ar sail cyngor cyfreithiol.

**Noder fod ceisiadau adnewyddu'n dibynnu ar hunan-asesiad. Rhaid i awdurdodau addysg lleol wirio sampl o 10% o'r ceisiadau hyn.**

**7.2 Dyfarndaliadau amodol:** Os nad yw'r ddogfennaeth ofynnol ar gael ar yr adeg y gwneir y cais, gall awdurdod addysg lleol (yn ôl ei ddisgresiwn) gymeradwyo dyfarndaliad amodol hyd nes y bydd y ddogfennaeth honno ar gael. Er mwyn lleihau tebygolrwydd gordalu, gall dyfarndaliad amodol hefyd ganiatáu i awdurdod addysg lleol y disgresiwn i atal y cyfan neu ran o'r taliad ar gyfer y tymor olaf nes y bydd y ddogfennaeth angenrheidiol wedi ei chyflwyno.

**7.3 Ailasesu'r dyfarndaliad:** Gall awdurdodau addysg lleol, yn ôl eu disgresiwn, ailasesu dyfarndaliad Grant Dysgu'r Cynulliad os ydynt yn barnu fod newidiadau mewn amgylchiadau yn gofyn hynny (gweler hefyd paragraff 6.4).

**7.4 Absenoldeb/ymddygiad/gwaith:** Mae gwneud taliadau Grant Dysgu'r Cynulliad yn dibynnu ar bresenoldeb/cynnydd/ymddygiad boddhaol ar y cwrs. Pan hysbysir awdurdod addysg lleol gan y sefydliad perthnasol fod myfyriwr wedi ei (g)wahardd dros dro, ei (g)wahardd yn barhaol, wedi tynnu yn ôl o'r cwrs, neu fod presenoldeb/cynnydd/ymddygiad y myfyriwr yn anfoddhaol, dylai'r awdurdod addysg lleol atal, terfynu neu, os yw'n briodol, fynnu ad-dalu taliadau i'r myfyriwr dan sylw.

**7.5 Talu/derbyn y dyfarndaliad:**

**7.5.1** Gan fod dyfarndaliadau wedi eu cysylltu'n agos â phresenoldeb, fe'u telir fel arfer mewn rhandaliadau fesul tymor (cymerir fod pob tymor yn cynnwys unrhyw gyfnodau astudio rhwng diwedd un tymor a dechrau'r tymor nesaf). Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd y rhandaliad ar gyfer y tymor cyntaf yn 40% o'r grant cyflawn a ddyfarnwyd, gyda 30% yn cael ei dalu ar gyfer pob un o'r ddau dymor arall. Anfonir sieciau fel arfer i sefydliadau addysg bellach neu uwch neu ganolfannau dysgu eraill i'w casglu gan y myfyrwyr. Rhaid i bob myfyriwr lofnodi i gadarnhau derbyn ei siec. **Dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gall awdurdodau addysg lleol anfon sieciau i gyfeiriad cartref y myfyriwr.**

**7.5.2** Dylai sefydliadau addysg bellach neu uwch neu ganolfannau dysgu eraill fod yn fodlon ynghylch pwy yw'r myfyriwr a'i bod/fod wedi cofrestru ar y cwrs cyn rhyddhau ei siec Grant Dysgu'r Cynulliad i'r myfyriwr hwnnw/honno. Dylai sefydliadau addysg bellach neu uwch neu ganolfannau dysgu eraill anfon rhestri o'r rhai a lofnododd i awdurdodau addysg lleol yn ddi-oed. Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, mae'r awdurdod addysg lleol i geisio cytundeb sefydliadau addysg bellach neu uwch neu ganolfannau dysgu eraill i gyflawni'r gweithrediadau hyn ac unrhyw weithrediadau eraill a ofynnir oddi wrth sefydliadau addysg bellach neu uwch neu ganolfannau dysgu eraill yn y Protocol yn Atodiad 4 y Cynllun hwn. Os na fydd sefydliad addysg bellach, sefydliad addysg uwch neu ganolfan ddysgu arall yn cytuno i wneud hyn, rhaid i'r awdurdod addysg lleol wneud y trefniadau amgen sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfio ag amodau'r Cynllun.

**7.5.3** Rhaid i fyfyrwyr lofnodi datganiad ar ffurflen gais yr awdurdod addysg lleol yn addo ad-dalu unrhyw ordaliad a wnaed pan ofynnir hynny. Rhaid i hynny gynnwys gordaliadau o ganlyniad i gamgyfrifo, ailasesu cymhwysedd, ac oherwydd atal Grant Dysgu'r Cynulliad lle mae awdurdod addysg lleol wedi cael ei hysbysu ynghylch unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.4.

**7.6 Gordaliadau:** Pan ddigwydd gordalu dyfarndaliad Grant Dysgu'r Cynulliad (am unrhyw reswm) rhaid i awdurdodau addysg lleol geisio adennill y swm gan y myfyriwr neu dynnu'r gordaliad o unrhyw daliad(au) dilynol. Disgwylir i awdurdodau addysg lleol atal taliadau a mynnu ad-daliadau am gyfnodau lle bu presenoldeb yn anfoddhaol.

**7.6.1 Cyfrifo Gordaliad:**

**Dyfarndaliad Pro-rata** = **<u>Presenoldeb Gwirioneddol</u>** / **Presenoldeb Posibl** **x Grant Dysgu'r Cynulliad**

**7.6.2 Presenoldeb Gwirioneddol:** O'r diwrnod 1[af] y bu'r myfyriwr yn bresennol hyd y diwrnod olaf y bu'n bresennol ar y cwrs yn cynnwys cyfnodau gwyliau (ond heb gynnwys gwyliau'r haf) fel y'i hysbysir gan y sefydliad. Ni fernir fod y myfyriwr yn absennol o'r cwrs os yw'r awdurdod addysg lleol yn fodlon na allai fynychu oherwydd salwch ac nad oedd y cyfnod o absenoldeb yn fwy na 60 diwrnod.

**7.6.3 Presenoldeb Posibl:** O'r diwrnod cyntaf yr oedd yn ofynnol bod yn bresennol ar y cwrs hyd y diwrnod olaf yr oedd yn ofynnol bod yn bresennol yn cynnwys cyfnodau gwyliau (ond heb gynnwys gwyliau'r haf) fel y'i hysbysir gan y sefydliad.

**7.7 Proses Apêl ar gyfer Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad**: Mewn perthynas â gweinyddu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad, mae'r gweithdrefnau canlynol ar gyfer apelio i'w cyflwyno, **ond dim ond os nad oes gweithdrefnau tebyg eraill yn bodoli'n barod:**

**7.7.1 Yr Haen Gyntaf:** Dylid cyflwyno cwynion gan unigolion ynghylch gweinyddu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad gan yr awdurdod addysg lleol yn y lle cyntaf mewn ysgrifen i'r awdurdod addysg lleol sy'n dyfarnu. Os yw'r myfyriwr yn parhau'n anfodlon a'r canlyniad, caniateir iddo/iddi gyfeirio'r gwyn ymhellach i'r ail haen.

**7.7.2 Yr Ail Haen:** Bydd hyn ar ffurf panel, a drefnir gan yr awdurdod addysg lleol, wedi ei sefydlu i gynghori ynghylch y gwyn. Bydd yna o leiaf dri o unigolion diduedd ar y panel. Pryd bynnag y mae'n briodol, a lle bo hynny'n bosibl, bydd y panel hwn yn cynnwys aelod staff dynodedig o'r sefydliad addysg bellach, sefydliad addysg uwch neu ganolfan ddysgu arall neu, os nad yw hynny'n bosibl, dylai'r panel geisio datganiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi oddi wrth y sefydliad addysg bellach, sefydliad addysg uwch neu ganolfan ddysgu arall.

**7.7.3 Y Drydedd Haen:** Os yw'r myfyriwr yn teimlo fod penderfyniad y panel yn anfoddhaol neu'n annheg, yna fe'i hysbysir ynghylch yr amgylchiadau pryd y gall gyfeirio'r mater i'r Ombwdsman Llywodraeth Leol.

**7.7.4 Y Bedwaredd Haen:** Yn y pen draw, swyddogaeth Llysoedd y Gyfraith yw penderfynu ar unrhyw faterion cyfreithiol sy'n parhau heb eu datrys yn foddhaol ar gyfer y naill barti neu'r llall.

**7.8 Materion Polisi Grant Dysgu'r Cynulliad:** Dylid cyflwyno achwyniadau neu gwynion gan unigolion, awdurdodau addysg lleol, sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch neu ganolfannau dysgu eraill mewn perthynas â pholisi Grant Dysgu'r Cynulliad (ond nid ei weithredu) yn uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd â'i weithdrefn ei hun ar gyfer ymdrin â chwynion.

**Y Ddeddf Diogelu Data:** Hysbysir myfyrwyr y bydd y wybodaeth a roddir ganddynt ar y ffurflen gais yn cael ei chadw ar system gyfrifiadurol gan yr awdurdod addysg lleol er dibenion asesu a thalu'r grant. Fe'u hysbysir hefyd y gellid defnyddio'r wybodaeth i rwystro ac i ganfod twyll ac y gellir ei hanfon ymlaen at sefydliadau eraill sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus. Bydd y modd yr ymdrinnir â data a gedwir ynghylch myfyrwyr unigol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

## 8. Gwerthuso

**8.1** Bydd awdurdodau addysg lleol, gyda chydweithrediad sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a chanolfannau dysgu eraill, yn ymdrechu i gadw ac i ddarparu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru pa bynnag wybodaeth y mae'n ei cheisio er mwyn mesur yr effaith mae'r Cynllun yn ei chael mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion a gyhoeddwyd.

**8.2** Bydd awdurdod addysg lleol sy'n derbyn grant yn caniatáu, heb godi tâl, i unrhyw swyddog neu swyddogion o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymweld â'i safle ar unrhyw adeg resymol a/neu archwilio unrhyw ran o'i weithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon y grantî ynghyd ag unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a all ym marn y swyddogion fod yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i'r modd y mae'r grantî'n defnyddio'r grant. Nid yw'r amod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau statudol a phwerau y gellir eu defnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan unrhyw un o'i swyddogion, gweision neu asiantwyr, ac mae'n ddarostyngedig i'r hawliau a'r pwerau hynny. Cedwir hefyd hawl mynediad ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yr hawl i archwilio mewn perthynas â chynildeb, effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd y gweithgareddau hynny y darperir grant yn benodol ar eu cyfer.

## 9. Grant Penodol

### 9.1 Dull Talu

Bydd y Cynulliad yn gwneud taliadau i awdurdodau unigol drwy grant penodol ar raddfa o 100%.

### 9.2 Amlder

Telir y grant mewn tri rhandaliad (40%/30%/30%) a bydd yn seiliedig ar gyfanswm y gwariant a amcangyfrifir ar ffurflen NAW1 (a gaiff ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn yng ngoleuni unrhyw adolygiadau diweddarach) pan wneir cais, ac yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru).

### 9.3 Gweinyddu/cyhoeddusrwydd

Pan fyddant yn cyflwyno ceisiadau am wariant a gymeradwyir, gwahoddir awdurdodau addysg lleol i nodi ar wahân swm blynyddol ychwanegol ar gyfer gweinyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Dylid seilio'r swm hwn ar nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad a gafodd gymorth yn 2003/04 ac fe'i telir fel y nodir yn y tabl isod. Unwaith eto, fe delir yr elfen hon mewn tri rhandaliad (yn unol â pharagraff 9.2 uchod).

| Nifer o fyfyrwyr Grant Dysgu'r Cynulliad | Band | Swm i'r Awdurdod Addysg Lleol |
|---|---|---|
| Hyd at 850 | A | £22.5k |
| 851 - 1200 | B | £28k |
| 1201 - 2000 | C | £35k |
| 2001a rhagor | D | £68k |

### 9.4 Ceisiadau ar gyfer Gwariant a Gymeradwyir

Dylai ceisiadau fod ar gyfer cyfan o'r flwyddyn academaidd arferol (hynny yw, cyfnod o 12 mis o 1 Medi), gan eu diwygio yn ystod y flwyddyn. Dylid cyflwyno ceisiadau ar ffurflenni NAW 1 a NAW 1(diwygiedig) – gweler y profformas a'r nodiadau ar dudalennau 17-21.

### 9.5 Tystysgrifau Taliadau

Mae'r rhain yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a dylid eu cyflwyno ar ffurflenni NAW 8 (COPI CYN ARCHWILIO) a NAW 8 (ARCHWILIO) – gweler y profformas a'r nodiadau ar dudalennau 22-26.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Dylid cwblhau, llofnodi a dychwelyd y ffurflen hon ddim hwyrach na [30 Ebrill a 29 Awst] i **GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

AMCANGYFRIF O'R GWARIANT AR GRANT DYSGU'R CYNULLIAD YN YSTOD BLWYDDYN ACADEMAIDD 2005/2006

| AWDURDOD ADDYSG LLEOL |
|---|
| |

1. BLWYDDYN ACADEMAIDD 2005/2006

(Dylai'r wybodaeth fod ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan)

| Dyfarndaliadau Grant Dysgu'r Cynulliad | Nifer o Fyfyrwyr 2005/2006 | Gwariant 2005/2006 |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| Addysg Bellach (275-499 awr gyswllt) | | |
| Addysg Bellach (500+ awr gyswllt) | | |
| Addysg Uwch (Rhan-amser) | | |
| Addysg Uwch (Llawnamser) | | |
| | Cyfanswm y Myfyrwyr | Gwariant cyflawn |

2. (I'w gwblhau gan yr Awdurdod)

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon at:-

Mr/Mrs/Miss…………………………………………………..

Rhif ffôn………..……………….……EST…………….…

Rhif ffacs…………………………….

Cyfeiriad e-bost…………………………………………………

STAMP YR AWDURDOD

Llofnodwyd……………………………
(Swyddog Awdurdodedig)

Enw……………………………
(Mewn PRIFLYTHRENNAU)

Dyddiad……………………………..

**NAW1**

**(DIWYGIEDIG)**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Dylid cwblhau, llofnodi a dychwelyd y ffurflen hon ddim hwyrach na [31 Mawrth] i **GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

AMCANGYFRIF O'R GWARIANT AR GRANT DYSGU'R CYNULLIAD YN YSTOD BLWYDDYN ACADEMAIDD 2005/2006

| AWDURDOD ADDYSG LLEOL |
|---|
| |

1. BLWYDDYN ACADEMAIDD 2005/2006

(Dylai'r wybodaeth fod ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan)

| Dyfarndaliadau Grant Dysgu'r Cynulliad | Nifer o Fyfyrwyr 2005/2006 | Gwariant 2005/2006 |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| Addysg Bellach (275-499 awr gyswllt) | | |
| Addysg Bellach (500+ awr gyswllt) | | |
| Addysg Uwch (Rhan-amser) | | |
| Addysg Uwch (Llawnamser) | | |
| | Cyfanswm y Myfyrwyr | Gwariant cyflawn |

2. (I'w gwblhau gan yr Awdurdod)

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon at:-

Mr/Mrs/Miss…………………………………………………..

Rhif ffôn………..…………………..……EST……………..…

Rhif ffacs…………………………….

Cyfeiriad e-bost…………………………………………………

STAMP YR AWDURDOD

Llofnodwyd……………………………
(Swyddog Awdurdodedig)

Enw……………………………
(Mewn PRIFLYTHRENNAU)

Dyddiad……………………………..

**NAW 1 a NAW 1 (DIWYGIEDIG) Nodiadau**

Ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cychwyn ar 1af Medi 2005, dylid cwblhau NAW 1 gyda'ch AMCANGYFRIF o'r nifer o fyfyrwyr a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod erbyn 30 Ebrill 2005. Dylid anfon NAW 1(Diwygiedig) erbyn 31 Mawrth (neu ar ddyddiadau amgen a ddynodir gan y Cynulliad Cenedlaethol). Erbyn hynny, dylai dau daliad fod wedi cael eu gwneud felly dylai'r amcangyfrifon fod yn weddol gywir.

Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, felly, dylai awdurdodau addysg lleol dderbyn dau draean o NAW 1 (y diwygiad diweddaraf) ar gyfer y flwyddyn academaidd honno yn ogystal â thraean o NAW 1 ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol YN OGYSTAL AG unrhyw amrywiadau yn unol â NAW 8.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu swm ychwanegol ar gyfer gweinyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Seilir y swm hwn ar nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad a gafodd gymorth yn 2003/04.

| Nifer Myryrwyr Grant Dysgu'r Cynulliad | Band | Swm i'r Awdurdod Addysg Lleol |
|---|---|---|
| Hyd at 850 | A | £22.5k |
| 851 - 1200 | B | £28k |
| 1201 - 2000 | C | £35k |
| 2001 a rhagor | D | £68k |

**NAW 8 (COPI CYN ARCHWILIO)**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**TYSTYSGRIF TALIADAU GRANT DYSGU'R CYNULLIAD YN Y FLWYDDYN ARIANNOL 2005-2006**

| |
|---|
| ENW'R AWDURDOD ADDYSG LLEOL |
| |

1. Ardystiaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-2006

a.

| | |
|---|---|
| **(a)** Fod taliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn unol â'r rheoliadau perthnasol fel a ganlyn: | £ |
| i. Addysg Bellach (Rhan-amser) | |
| ii. Addysg Bellach (Llawnamser) | |
| iii. Addysg Uwch (Rhan-amser) | |
| iv. Addysg Uwch (Llawnamser) | |

b.

| | |
|---|---|
| **(b)** Gordaliadau a wnaed cyn 1/4/06 | £ |
| | |

c.

| | |
|---|---|
| **(c)** Gordaliadau a wnaed cyn 1/4/05 | £ |
| | |

d.

| | |
|---|---|
| **(d)** Y grant penodol sy'n daladwy [a+b-c] | £ |
| | |

2. Ardystiaf hefyd fod systemau gweinyddol, gweithdrefnau a rheolaethau'r awdurdod addysg lleol ar gyfer cynnig Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol ac yn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cyfredol.

Llofnod ______________________ Enw (priflythrennau) ____________________________

Prif Swyddog Cyllid

Dyddiad_____________________________________

..................................................................................................................................

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon at:-

Mr/Mrs/Miss…………………………………………………..

Rhif ffôn………..……………….……EST………………..…

Rhif ffacs…………………………….

Cyfeiriad e-bost…………………………………………………

STAMP YR AWDURDOD

Llofnodwyd……………………………
(Swyddog Awdurdodedig)

Enw……………………………
(Mewn PRIFLYTHRENNAU)

Dyddiad……………………………..

**NAW 8 (ARCHWILIO)**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**TYSTYSGRIF TALIADAU GRANT DYSGU'R CYNULLIAD YN Y FLWYDDYN ARIANNOL 2005-2006**

| ENW'R AWDURDOD ADDYSG LLEOL |
|---|
| |

1. Ardystiaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-2006

a.

| **(a)** Fod taliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn unol â'r rheoliadau perthnasol fel a ganlyn: | £ |
|---|---|
| i. Addysg Bellach (Rhan-amser) | |
| ii. Addysg Bellach (Llawnamser) | |
| iii. Addysg Uwch (Rhan-amser) | |
| iv. Addysg Uwch (Llawnamser) | |

b.

| **(b)** Gordaliadau a wnaed cyn 1/4/06 | £ |
|---|---|
| | |

c.

| **(c)** Gordaliadau a wnaed cyn 1/4/05 | £ |
|---|---|
| | |

d.

| **(d)** Y grant penodol sy'n daladwy [a+b-c] | £ |
|---|---|
| | |

2. Ardystiaf hefyd fod systemau gweinyddol, gweithdrefnau a rheolaethau'r awdurdod addysg lleol ar gyfer cynnig Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol ac yn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cyfredol.

Llofnod ____________________Enw (priflythrennau)
_________________________

Prif Swyddog Cyllid

Dyddiad_________________________________

.................................................................................................................................

**Tystysgrif yr archwilydd a apwyntiwyd gan y Comisiwn Archwilio**

Mae Datganiad Cyfrifoldebau cyrff sy'n talu grantiau, awdurdodau, y Comisiwn Archwilio a'r archwilwyr a apwyntir mewn perthynas â hawliadau grantiau a datganiadau, a gyhoeddir gan y Comisiwn Archwilio, yn nodi cyfrifoldebau penodol y partïon hyn, a'r cyfyngiadau ar ein cyfrifoldebau ni fel yr archwilwyr a apwyntiwyd. Rwyf fi / Rydym ni:

- wedi archwilio'r wybodaeth a roir yn y ffurflen hon (sy'n cymryd lle neu'n diwygio'r ffurflen wreiddiol a gyflwynwyd i mi/ni gan yr awdurdod, ac yn ddyddiedig )* a chyfrifon a chofnodion cysylltiedig yr awdurdod yn unol â Chyfarwyddyd Ardystio A1 a baratowyd gan y Comisiwn Archwilio ar gyfer ei archwilwyr apwyntiedig; ac

- wedi cyflawni'r profion a ddynodir yng Nghyfarwyddyd Ardystio **EDU08 W** a baratowyd gan y Comisiwn Archwilio ar gyfer ei archwilwyr apwyntiedig, a'm bod i / ein bod ni wedi cael y fath dystiolaeth ac esboniadau ag yr wyf / ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol.

(Ar wahân i'r materion a nodir yn y llythyr amodi amgaeedig, dyddiedig )* rwyf fi / rydym ni wedi dod i'r casgliad fod y wybodaeth

- wedi ei mynegi'n deg; ac

- yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol.

Llofnod___________________Enw (priflythrennau)
_________________________

Dyddiad _________________

** Dileer fel bo angen*

**NAW 8: NODIADAU**

1) MAE NAW 8 YN CYFATEB I'R FFURFLEN UG8 AC YN ARDYSTIO FAINT A DALIWYD I FYFYRWYR GAN AWDURDOD ADDYSG LLEOL YN Y FLWYDDYN ARIANNOL A NODIR. MAE EI HANGEN ER MWYN GALLUOGI LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I WNEUD NEWIDIADAU I UNRHYW SYMIAU A DALWYD YMLAEN LLAW AR SAIL AMCANGYFRIFON.

2) DYLID CWBLHAU FFURFLENNI CYN ARCHWILIO AC ARCHWILIO AR YR UN ADEG A'U HARDYSTIO GAN YR UN PERSON AG SYDD YN ARDYSTIO EICH UG8.

3) DYLID ANFON Y FFURFLEN CYN ARCHWILIO AT LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A'R COPI ARCHWILIO I'R ARCHWILIWR A APWYNTIWYD, ILL DAU ERBYN 30 MEDI I GYFEIRIADAU A DDYNODIR GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU.

4) BYDD YR ARCHWILIWR A APWYNTIWYD YN GWIRIO'R FFIGYRAU AC YN ANFON COPI ARDYSTIEDIG I LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU ERBYN 31 RHAGFYR.

5) BLWCH b AR Y FFURFLEN YW CYFANSWM YR ANFONEBAU DYLEDWYR AMRYWIOL A ANFONWYD YN YSTOD Y CYFNOD DAN SYLW. DYLAI BLYCHAU a (i) (ii) (iii) (iv) FELLY DDANGOS Y CYFANSWM A DALWYD I FYFYRWYR **AR ÔL** ADNABOD A DIDYNNU UNRHYW ORDALIADAU. BYDD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU WEDYN YN ASESU'R TALIAD I'R AWDURDOD ADDYSG LLEOL FEL Y SWM NET Y DYLID FOD WEDI EI DALU ALLAN **YNGHYD Â'R** ANFONEBAU DYLEDWYR AMRYWIOL A ANFONWYD. ERBYN DIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL GANLYNOL DYLAI FOD YR HOLL ANFONEBAU DYLEDWYR AMRYWIOL WEDI CAEL EU TALU, FELLY BYDD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN CYMRYD Y SWM I FFWRDD ETO (BLWCH c). DYLAI BLWCH c FELLY BOB AMSER FOD YN GYFARTAL Â BLWCH b Y FLWYDDYN GANLYNOL.

ENGHRAIFFT
BLWYDDYN ARIANNOL 2001/2002

| | |
|---|---|
| SWM Y DYLID FOD WEDI EI DALU | £235,000 |
| ANFONEBAU DYLEDWYR AMRYWIOL A ANFONWYD | £15,000 |

BYDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU FELLY'N TALU £250,000
TALODD YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL ALLAN £250,000 (OND MAE'N DISGWYL AM INCWM DYLEDWYR AMRYWIOL O £15,000 GAN FYFYRWYR)

FELLY DRWY GYFNOD CYFAN 2002/2003

INCWM ODDI WRTH ANFONEBAU DYLEDWYR AMRYWIOL am 01/02
£15,000
DIDYNNWYD O GRANT CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AM 02/03 -
£15.000

**ATODIAD 1**

**Myfyrwyr Cymwys**

1. Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs -

   (a) yn sefydlog yn y Deyrnas Unedig yn ystyr Deddf Mewnfudo 1971, ac

   (b) yn bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

2. Person sy'n ffoadur, yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig neu'r Ynysoedd, nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers iddo/iddi gael ei gydnabod/chydnabod fel ffoadur, neu sy'n briod, yn blentyn neu'n llysblentyn i'r fath ffoadur, ac sydd ym mhob achos yn bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7(a).

3. Person sydd –

   (a) (i) wedi cael ei hysbysu gan berson yn gweithredu dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir, er yr ystyrir nad yw ef neu hi'n gymwys i'w gydnabod/chydnabod fel ffoadur, ei bod yn iawn i ganiatáu iddo ef neu hi i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, neu

   (ii) cyn 1af Gorffennaf 1993 wedi gwneud cais i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref i gael ei gydnabod/chydnabod fel ffoadur, ac a hysbyswyd gan berson yn gweithredu dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn i ganiatáu iddo ef neu hi i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno,

   (b) wedi cael caniatâd i ddod i mewn ac i aros yn unol â hynny, ac

   (c) wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers iddo/iddi gael caniatâd i ddod i mewn ac i aros,

neu sy'n briod, yn blentyn neu'n llysblentyn i'r fath berson, lle mae'r person, neu, yn ôl yr achos, y priod, plentyn neu'r llysblentyn, yn bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

4. Person sy'n weithiwr mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd –

(a) yn gymwys ar gyfer cymorth dan Erthygl 7(2) neu (3) Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar hawl gweithwyr i symud oddi mewn i'r Gymuned, fel y'i hehangwyd gan Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu, lle bo ef neu hi yn ddinesydd y Deyrnas Unedig, yn rhinwedd hawl orfodadwy dan y Gymuned i gael ei drin/thrin mewn modd nad yw'n llai ffafriol nag y byddai dinesydd aelod-wladwriaeth arall yn cael ei drin/thrin mewn perthynas â materion yr ymdrinnir â nhw yn Erthygl 7(2) a (3); ac

(b) sy'n bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

5. Person sy'n briod i weithiwr mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac sydd –

(a) yn sefydlog yn y Deyrnas Unedig gyda'i briod/phriod, ac

(b) sy'n bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

6. (1) person sy'n blentyn i weithiwr mudol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac sydd –

(a) yn gymwys ar gyfer cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 Rheoliad y Cyngor y cyfeirir ato uchod, neu, lle bo ei r(h)iant sy'n weithiwr mudol yn ddinesydd y Deyrnas Unedig, yn rhinwedd hawl orfodadwy dan y Gymuned i gael ei drin/thrin mewn modd nad yw'n llai ffafriol nag y byddai plentyn dinesydd aelod-wladwriaeth arall yn cael ei drin/thrin mewn perthynas â materion yr ymdrinnir â nhw yn Erthygl 12 ac,

(b) sy'n bodloni'r amodau preswylio y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

(2) Er dibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn, a dehonglir "plentyn" yn unol â hynny.

7. Yr amodau preswylio y cyfeirir atynt uchod yw –

(a) bod y person yn preswylio'n arferol yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf ei gwrs/chwrs;

(b) bod y person wedi bod yn preswylio'n arferol drwy gydol y cyfnod o dair blynedd o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, yn achos person a grybwyllir ym mharagraffau 1 neu 3, yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, neu, yn achos person a grybwyllir ym mharagraffau 4,5 neu 6 , yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

(c) nad yw ei breswylio/phreswylio yng Nghymru ar y diwrnod a nodir yn is-baragraff (a) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er diben derbyn addysg lawn-amser neu ran-amser;

(d) na fu ei breswylio/phreswylio yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd neu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, pa un bynnag sy’n berthnasol, yn ystod unrhyw ran o’r cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) yn gyfan gwbl neu’n bennaf er diben derbyn addysg llawnamser neu ran-amser.

**ATODIAD 2**

**Dilyniant**

Enghraifft 1

BL1 2TGAU + 1 LEFEL A = GRANT DYSGU'R CYNULLIAD
BL $1^{AF}$ BL $1^{AF}$

BL2 2TGAU + 1 LEFEL A = DILYNIANT
(a) $2^{AIL}$ FL $2^{AIL}$ FL

BL2 2TGAU + 1 LEFEL A = DILYNIANT
(b) AILSEFYLL BL $1^{AF}$ $2^{AIL}$ FL

BL2 DIM TGAU + 1 LEFEL A = DILYNIANT
(c) TYNNU'N ÔL $2^{AIL}$ FL

BL2 2TGAU + 1 LEFEL A = DIM DILYNIANT
(d) $2^{AIL}$ FL AILSEFYLL BL $1^{AF}$

BL2 2TGAU + 1 LEFEL A = DIM DILYNIANT
(e) AILSEFYLL BL $1^{AF}$ AILSEFYLL BL $1^{AF}$

BL2 2TGAU + DIM LEFEL A = DIM DILYNIANT
(f) AILSEFYLL BL $1^{AF}$ TYNNU'N ÔL

BL2 DIM TGAU + 1 LEFEL A = DIM DILYNIANT
(g) TYNNU'N ÔL AILSEFYLL BL $1^{AF}$

BL3 2TGAU + 1 LEFEL A = DILYNIANT o FL2 (e)
(a) $2^{AIL}$ FL $2^{AIL}$ FL

BL3 2TGAU + DIM LEFEL A = DILYNIANT o FL2 (f)
b) $2^{AIL}$ FL TYNNU'N ÔL

BL3 DIM TGAU + 1 LEFEL A = DILYNIANT o FL2 (g)
(c) TYNNU'N ÔL $2^{AIL}$ FL

BL3 2TGAU + DIM LEFEL A = DIM DILYNIANT o FL2 (b)
(d) $2^{AIL}$ FL CWBLHAWYD

BL3 2TGAU + DIM LEFEL A = DILYNIANT o FL2 (d)
(e) CWBLHAWYD $2^{AIL}$ FL

**ATODIAD 3**

**RHAN 1: PROTOCOL PARTNERIAETH - (Awdurdodau Addysg Lleol /Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru)**

**1 Rhagarweiniad**

Mae'r Protocol hwn yn diffinio'r trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau addysg lleol unigol a sefydliadau addysg bellach ac uwch wrth weinyddu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. Ei amcan yw nodi pwy sy'n gyfrifol am beth a, lle bo hynny'n briodol, yr amserlen a gytunwyd. Ei brif amcan yw sicrhau darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon o safon uchel i fyfyrwyr sydd ac a fydd yn derbyn grant yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad.

**2 Dosbarthu**

Yr awdurdodau addysg lleol fydd yn gyfrifol am osod y manylion cyfeiriad dychwelyd priodol ar ffurflenni cais Grant Dysgu'r Cynulliad. Bydd yr awdurdodau addysg lleol wedyn yn dosbarthu llwythi o ffurflenni, ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd, i'r sefydliadau addysg bellach ac uwch. Ar ôl hynny, bydd yr awdurdodau addysg lleol a'r sefydliadau addysg bellach ac uwch gyda'i gilydd yn gyfrifol am ddosbarthu gwybodaeth a ffurflenni cais Grant Dysgu'r Cynulliad i fyfyrwyr.

**3 Cyngor**

Bydd yr awdurdodau addysg lleol, ar gais y sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn ymweld â'r sefydliadau hynny i gynnig cyngor i ymgeiswyr posibl am Grant Dysgu'r Cynulliad ynghylch meini prawf cymhwysedd ac asesu.

**4 Cyfarwyddyd**

Bydd y ddau barti'n gyfrifol am ddarparu cyfarwyddyd ynghylch yr ystod o fesurau cymorth ariannol sydd ar gael i'r ymgeisydd ac ynglŷn â sut i gwblhau'r ffurflenni cais am Grant Dysgu'r Cynulliad yn gywir.

**5 Gwirio gan y Colegau**

Bydd sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gyfrifol am gadarnhau ar y ffurflen gais ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad, fod y myfyriwr wedi ymgeisio ar gyfer cwrs neu raglen astudio sy'n gymwys. Bydd sefydliadau addysg bellach yn gyfrifol am gadarnhau'r nifer o oriau addysgu sydd yn y rhaglen, a bydd sefydliadau addysg uwch yn gyfrifol am wirio a yw'r cwrs/rhaglen wedi ei ddynodi'n rhan-amser ynteu'n llawn-amser.

**6 Ymholiadau gan yr awdurdodau addysg lleol**

Bydd sefydliadau addysg bellach ac uwch yn anelu i ymateb o fewn deg diwrnod gwaith i ymholiadau penodol oddi wrth yr awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â myfyriwr arbennig, gan gadarnhau'r ymateb hwnnw mewn ysgrifen drwy bost electronig lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**7 Ymholiadau gan Fyfyrwyr**

Bydd sefydliadau addysg bellach ac uwch yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatrys ymholiadau gyda'r awdurdodau addysg lleol ynghylch eu ceisiadau. Bydd yr awdurdodau addysg lleol yn anelu i ymateb o fewn deg diwrnod gwaith i ymholiadau o'r fath, gan gadarnhau'r ymatebion hynny mewn ysgrifen drwy bost electronig lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**8 Asesu ariannol**

Pan fyddant wedi derbyn y cyfan o'r wybodaeth berthnasol, bydd yr awdurdodau addysg lleol yn gyfrifol am asesu'n ariannol y ceisiadau am Grant Dysgu'r Cynulliad, yn seiliedig ar y meini prawf asesu a ddiffinnir yn Adrannau 4 a 6 y Cynllun. Bydd yr awdurdodau addysg lleol yn anelu i brosesu ceisiadau cyn gynted ag y bo modd a heb fod yn hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y ffurflenni wedi eu cwblhau yn gywir.

**9 Hysbysu ynghylch Cymhwysedd**

Bydd yr awdurdod addysg lleol perthnasol yn hysbysu pob myfyriwr ynghylch a ydynt yn gymwys ai peidio ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad, gan anfon yr hysbysiad hwnnw i gyfeiriad cartref y myfyriwr cyn gynted ag y bo modd a heb fod yn hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu a yw'n gymwys ai peidio.

Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r llythyr hysbysu gynnwys gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus ynghylch yr amodau sydd ynglŷn â derbyn eu rhandaliadau Grant Dysgu'r Cynulliad.

**10 Paratoi Sieciau**

Yr awdurdodau addysg lleol fydd yn gyfrifol am baratoi sieciau ar gyfer y taliadau Grant Dysgu'r Cynulliad sy'n ddyledus i bob myfyriwr ac am anfon y sieciau'n ddiogel i'r sefydliadau addysg bellach ac uwch. Bydd yr awdurdodau addysg lleol yn gwneud hyn, ac yn anfon dalennau llofnodi unigol ar gyfer myfyrwyr, ar yr adegau priodol yn unol â blwyddyn academaidd y myfyriwr. **Mewn amgylchiadau eithriadol, gall awdurdod addysg lleol anfon siec ar gyfer unigolyn i'w gyfeiriad/cyfeiriad cartref, ond pan fyddant yn gwneud hynny, byddant yn hysbysu'r sefydliad addysg bellach neu uwch dan sylw.**

**11 Cadw Sieciau'n Ddiogel**

Y sefydliadau addysg bellach ac uwch fydd yn gyfrifol am storio'n ddiogel sieciau Grant Dysgu'r Cynulliad a anfonir atynt gan yr awdurdodau addysg lleol.

**12 Dosbarthu Sieciau**

Y sefydliadau addysg bellach ac uwch fydd yn gyfrifol am wirio prawf adnabod a chadarnhau statws cofrestredig pob myfyriwr ac wedyn am gyflwyno sieciau Grant Dysgu'r Cynulliad i'r myfyriwr hwnnw/honno ar gais. Bydd y sefydliadau addysg bellach ac uwch yn trefnu i'r myfyriwr lofnodi dalen lofnodi yn cadarnhau derbyn y siec, ac yn dychwelyd y ddalen i'r awdurdod addysg lleol.

Yn achos anfon sieciau i Brifysgol arwain ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliad arall dan gytundeb partneriaeth, gall y Brifysgol arwain anfon y sieciau hynny ymlaen i'r sefydliad sy'n bartner neu'r is-sefydliad heb hysbysu'r awdurdod addysg lleol. Fodd bynnag, rhaid i'r Brifysgol arwain ddychwelyd copi o'r atodlen ar gyfer y myfyriwr gan nodi'r rheswm am anfon y siec ymlaen. Dylai'r atodlen wreiddiol gael ei hanfon ymlaen gyda'r siec a'i dychwelyd wedyn i'r awdurdod addysg lleol gan y sefydliad sy'n bartner neu'r is-sefydliad.

**13 Monitro Presenoldeb**

Bydd yn ofynnol i sefydliadau addysg bellach ac uwch i ddarparu'n flynyddol i'r awdurdodau addysg lleol gadarnhad presenoldeb boddhaol a bwriad i fynd ymlaen i'r flwyddyn astudio nesaf. Yn achos presenoldeb anfoddhaol, bydd gofyn hefyd cael esboniad o'r achos a manylion unrhyw weithredu a arfaethir gan y sefydliad addysg bellach neu uwch.

**14 Tynnu'n ôl, Atal dros dro ac Eithrio**

Bydd sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gyfrifol am hysbysu awdurdodau addysg lleol drwy e-bost am unrhyw fyfyrwyr sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad sy'n tynnu'n ôl, neu'n cael eu hatal dros dro neu'n cael eu heithrio. Hysbysir ynghylch hyn cyn gynted ag y bo modd, a bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion presenoldeb gwirioneddol, cymharol a thybiannol y myfyriwr, ac yn benodol y dyddiad olaf y bu'n bresennol.

**15 Sieciau heb eu Casglu**

Bydd sieciau sydd heb eu casglu, ynghyd â dalenni llofnodi, yn cael eu dychwelyd i awdurdodau addysg lleol o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn gan sefydliadau addysg bellach ac uwch, ynghyd ag esboniad ynghylch pam na chawsant eu casglu.

**16 Cyhuddiadau o Dwyll**

Bydd awdurdodau addysg leol yn gyfrifol am ymchwilio'n ddi-oed i unrhyw gyhuddiadau'n ymwneud â thwyll gan fyfyrwyr sy'n ymgeiswyr neu sy'n derbyn grant.

**17 Ymchwilio i Dwyll**

Bydd sefydliadau addysg bellach ac uwch yn cynorthwyo awdurdodau addysg lleol i ymchwilio i dwyll honedig drwy ddarparu gwybodaeth amserol a chywir iddynt, yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

**18 Adennill Arian**

Os digwydd gordalu un o Grantiau Dysgu'r Cynulliad am unrhyw reswm, cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol fydd adennill yr arian dan sylw un ai'n rhannol neu'n gyflawn gan y derbynnydd.

**19 Archwilio**

Yr awdurdodau addysg lleol fydd yn gyfrifol am gostau archwilio'r elfennau hynny o Gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad y maent yn gyfrifol amdanynt fel y'u nodir yn y Protocol Partneriaeth hwn.

**20 Apelau**

Yr awdurdodau addysg lleol fydd yn gyfrifol am Gam 1 y broses Apêl mewn perthynas â cheisiadau myfyrwyr am Grant Dysgu'r Cynulliad. Pe digwydd Apêl Cam 2, bydd cynrychiolydd o sefydliad addysg bellach neu uwch y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais iddo yn eistedd ar y Panel Apêl ynghyd â chynrychiolwyr yr awdurdod addysg lleol a chynrychiolwyr annibynnol.

**21 Monitro a Gwerthuso**

Bydd yr holl awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r modd y maent yn perfformio eu cyfrifoldebau am weinyddu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad fel y'u nodir yn y Protocol Partneriaeth hwn.

**22 Cyfarfodydd Adolygu (Cymru)**

O leiaf unwaith y tymor, bydd cynrychiolwyr yr awdurdod addysg lleol unigol yn cyfarfod â'r sefydliad(au) addysg bellach a'r sefydliad(au) addysg uwch yn ei ardal i drafod perfformiad Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. Darperir cofnodion y cyfarfodydd hynny i Grŵp Cynghori Grant Dysgu'r Cynulliad i alluogi adolygu a gwerthuso gweinyddu'r Cynllun ar draws y sector ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ei weithredu, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau/newidiadau mewn blynyddoedd dilynol.

**23 Swyddogion Cyswllt**

Bydd awdurdodau addysg lleol a'r sefydliadau addysg bellach ac uwch bob un yn dynodi un uwch-aelod o'u staff i weithredu fel Swyddogion Cyswllt i fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datrys ymholiadau ynghylch gweithredu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. Cyhoeddir rhestr o'r Swyddogion Cyswllt yn Rhan 2 y Protocol Partneriaeth hwn, a chaiff ei diweddaru'n flynyddol neu'n amlach na hynny, fel bo'n briodol.

**24 Defnyddio Post Electronig**

Er mwyn osgoi oedi diangen, mae'r awdurdodau addysg lleol a'r sefydliadau addysg bellach ac uwch yn cytuno i ddefnyddio post electronig lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fel y cyfrwng mwyaf effeithiol i gyfathrebu'n ysgrifenedig â'i gilydd.

**25 Calendr Digwyddiadau**

Pob blwyddyn, bydd yr awdurdodau addysg lleol a'r sefydliadau addysg bellach ac uwch yn cyhoeddi Calendr Digwyddiadau, fydd yn nodi'r dyddiadau allweddol a'r gweithredu a ddisgwylir gan y partïon i'r Protocol Partneriaeth hwn.

**26 Casgliad**

Nid yw'r Protocol Partneriaeth hwn yn ddogfen sydd â grym cyfreithiol. Mae'r awdurdodau addysg lleol a'r sefydliadau addysg bellach ac uwch, fel awduron y Protocol Partneriaeth hwn, yn cytuno i weithredu'n unol â'i gynnwys er mwyn sicrhau gweithredu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yn effeithiol a thriniaeth deg ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**ATODIAD 3 – Rhan 2**

Os cwyd ymholiad neu anghydfod ynghylch gweinyddu Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad mewn perthynas â chyrsiau yng Nghymru, dylid cysylltu â'r Swyddogion Cyswllt canlynol:-

**Cysylltiadau'r Sector Addysg Bellach**

Paul Denham
Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg y Barri
Heol Colcot
Y Barri
Bro Morgannwg
CF62 8YJ

Ffôn: 01446 725000
e-bost:
pdenham@barry.ac.uk

Julie Chapman
Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Dysgu Gydol Oes
Coleg Penybont
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3DF

Ffôn: 01656 302242
e-bost: juliechapman@bridgend.ac.uk

Robert Davies
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Sir Gâr
Campws y Graig
Heol Sandy
Llanelli
SA15 4DN

Ffôn: 01554 748000
e-bost:
robert.davies@colegsirgar.ac.uk

Sue Jones
Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr a Dysgu
Coleg Ceredigion
Campws Llanbadarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BP

Ffôn: 01970 639700
e-bost: jonesue@ceredigion.ac.uk

Steve Jackson
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Coleg Glannau Dyfrdwy
Ffordd Celstryn
Cei Connah
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 4BR

Ffôn: 01244 831531
e-bost:
S.Jackson@deeside.ac.uk

Joe Burns
Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Glan Hafren
Heol Trowbridge
Caerdydd
CF3 1XZ

Ffôn: 029 2025 0250
e-bost: burns_j@glan-hafren.ac.uk

Jim Hockinhull
Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Gorseinon
Heol Belgrave
Gorseinon
Abertawe
SA4 6RD

Ffôn: 01792 890700
e-bost: admin@gorseinon.ac.uk

Rob Cummings
Rheol Gwasanaethau Dysgwyr
Coleg Gwent
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

Ffôn: 01495 333539
e-bost: cummingsr@coleggwent.ac.uk

Sean Marini
Rheolwr Cyllid
Coleg Harlech/Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Gogledd Cymru
Harlech
Gwynedd
LL46 2PU

Ffôn: 01766 780363
e-bost: s.marini@fc.harlech.ac.uk

Lynn Goodhew
Rheolwr Cyngor ac Arweiniad
Coleg Llandrillo
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn
LL28 4HZ

Ffôn: 01492 546666
e-bost: l.goodhew@llandrillo.ac.uk

Clwyd Jones
Rheolwr Cyllid
Coleg Llysfasi
Pentrecelyn
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2LB

Ffôn: 01978 790263
e-bost: bcjones@llysfasi.ac.uk

Rona Lewis
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr
Coleg Meirion-Dwyfor
Ffordd Tŷ'n-y-Coed
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2SW

Ffôn: 01341 422827

Barry Thomas
Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Menai
Ffordd Ffriddoedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2TP

Ffôn: 01248 370125
e-bost: barry.thomas@menai.ac.uk

Ann Hill
Arolygydd Gweinyddol
Coleg Merthyr Tudful
Ynysfach
Merthyr Tudful
CF48 1AR

Ffôn: 01685 726000
e-bost: a.hill@merthyr.ac.uk

Maxine Thomas
Rheolwr Gwasanaethau Dysgu
Coleg Sir Benfro
Pont Fadlen
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1SZ

Ffôn: 01437 753000
e-bost:
ma.thomas@pembrokeshire.ac.uk

Rosemary Denham
Cofrestrydd
Coleg Powys
Heol Llanidloes
Y Drenewydd
Powys
SY16 4HU

Ffôn: 0845 4086202
e-bost: rdenham@coleg-powys.ac.uk

Ann Pitman
Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Abertawe
Heol Tycoch
Abertawe
SA2 9EB

Ffôn: 01792 284223
e-bost:
a.pitman@swancoll.ac.uk

Sam Thomas
Clerc i'r Gorfforaeth
Coleg Castell Nedd Port Talbot
Heol Dŵr y Felin
Castell Nedd
SA10 7RF

Ffôn: 01639 648000
e-bost: sam.thomas@nptc.ac.uk

Dave Brookes
Rheolwr System Gwybodaeth
Rheoli a Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Pontypridd
Teras Ynys
Rhydyfelin
Pontypridd
CF37 5RN

Ffôn: 01443 662800
e-bost:
D.Brookes@Pontypridd.ac.uk

Mark Leighfield
Pennaeth
Coleg Catholig Dewi Sant
Heol Tŷ Gwyn
Penylan
Caerdydd
CF23 5QD

Ffôn: 029 2049 8555
e-bost:
mleighfield@stdavids.ac.uk

Coleg Garddwriaeth Cymru
Llaneurgain
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6AA

Ffôn: 01352 841000

Lynette Hurley
Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru
7 Coopers Yard
Ffordd Curran
Caerdydd
CF10 5NB

Ffôn: 029 2023 5277
e-bost: l.hurley@swales.wea.org

Margaret Jones
Rheolwr Addysg Bellach
Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc
27 Heol yr Eglwys
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2DX

Ffôn: 029 20755444
e-bost: m.a.jones@ymca-wales.ac.uk

Carol Owen
Rheolwr Cefnogaeth Ariannol i Fyfyrwyr
Coleg Iâl
Ffordd y Llwyni
Wrecsam
LL12 7AA

Ffôn: 01978 316427
e-bost: cao@yale-wrexham.ac.uk

Joan Siddle
Dirprwy Bennaeth System Gwybodaeth Rheoli a Gwasanaethau Myfyrwyr
Coleg Ystrad Mynach
Heol Twyn
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7XR

Ffôn: 01443 816888
e-bost: jsiddle@ystrad-mynach.ac.uk